

Oherwydd pwysau llwyth gwaith ar Gomisiynydd Plant Cymru a Llywodraeth Cymru yn sgîl pandemig Covid-19, rydyn ni wedi penderfynu peidio â chyhoeddi diweddariad llawn ar ein hargymhellion ym mis Hydref 2020. Rydyn ni'n ymwybodol bod y pandemig wedi achosi oedi yn achos rhai darnau o waith polisi sy'n parhau; er nad ydyn ni'n cyhoeddi diweddariad ysgrifenedig ffurfiol yn y chwarter yma, byddwn ni'n parhau i drafod yr argymhellion hyn gyda Gweinidogion a swyddogion yn y cyfnod hwn.

Rydyn ni wedi cyhoeddi [ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20](#), sy'n cyflwyno ein safbwynt ar hyn o bryd a'r hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl gan Llywodraeth Cymru yng nghyswllt llawer o'n hargymhellion presennol. Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi [ein dogfen Maniffesto ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021](#), sydd i'w gweld ar ein gwefan yma.

Bydd ein diweddariad nesaf yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ym mis Ionawr 2021. Fodd bynnag, os hoffech chi gysylltu â'r tîm i drafod unrhyw rai o'n hargymhellion yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â'n Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Rachel Thomas. Gallwch gysylltu â hi ar post@complantcymru.org.uk neu drwy ffonio ein switsfwrdd ar 01792 765600.